# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-14-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 11 Hydref 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30 am i 12.35 pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| Helen Mary Jones | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Torfaen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dr Tony Jewell | Prif Swyddog Meddygol |
| Phil Chick | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl |
| Claire Bond | Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Irene Allen | Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

#### Yn bresennol

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Dr Andrew Fowell (Cadeirydd) | Cadeirydd Grwp Cyfeirio Arbenigol yn cynghori'r Pwyllgor ar Adolygiad Gwasanaethau Canser / Meddyg Ymgynghorol Meddygaeth Liniarol, Ysbyty Gwynedd |
| Dr Gwyn Thomas | Cyfarwyddwr, Hysbysu Gofal Iechyd |
| Simon Dean | Prif Weithredwr, Comisiwn Iechyd Cymru |
| Jeff Stamatakis | Cadeirydd, CaNISC |
| Dr Jane Hanson | Cyfarwyddwr, Grwp Cydgysylltu Gwasanaethau Canser |
| Will Bee | Cyfarwyddwr, Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) |
| Laura Jerram | Rheolwr Datblygu Ymarfer, DRC |
| David Groves | Swyddog Polisi Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

### Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc Pwyllgor |
| Sara Mansour | Is-Glerc Pwyllgor |
| Kathryn Potter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Peter Jones | Cwnsler y Cynulliad |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a Dirprwyon a Datganiadau o Fuddiant

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths a Karen Sinclair. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1.3 Bydd cofnod air am air o'r cyfarfod ar gael.

### Eitem 2: Adolygiad o Wasanaethau Canser - tystiolaeth lafar HSS(2)-14-06(p1a), HSS(2)-14-06(p1b), HSS(2)-14-06(p1c), HSS(2)-14-06(p1d) and HSS (2)-14-06 (p4)

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth ar gyfer y tystion am y cais am dechnoleg gwybodaeth a

chyfathrebu a chomisiynu gwasanaethau canser. Trafodwyd papur y Gweinidog ar chwilio gorwelion cyffuriau newydd a thriniaeth ar gyfer cleifion canser hefyd.

2.2 Wrth drafod papur 4, cododd yr Aelodau hefyd gyhoeddiad gan Y Sefydliad dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ei fod yn gwrthod apeliadau gan randdeiliaid ar ei ganllawiau drafft ar y defnydd o gyffuriau i drin clefyd Alzheimer.

**Camau Gweithredu**

Y Pwyllgor i roi ystyriaeth bellach yn ei ystyriaethau i'r mater p'un a ddylid cynnwys gofal lliniarol yn CaNISC.

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr ar ganllawiau ar drin pobl ?hlefyd Alzheimer y mae NICE yn bwriadu'u cyhoeddi ar ddiwedd mis Tachwedd.

## Eitem 3: Triniaeth Gyfartal: Cau'r Bwlch. Adroddiad y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC)
## HSS(2)-14-06(t2)

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad ar archwiliad ffurfiol i anghydraddoldebau iechyd corfforol a brofwyd gan bobl ag anawsterau dysgu a / neu broblemau iechyd meddwl. Ymatebodd cynrychiolwyr o'r DRC i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

**Camau Gweithredu**

Bydd y DRC yn rhoi'r wybodaeth ar ymchwil a gynhaliwyd yn y DU ar wasanaethau ac archwiliadau iechyd a roddwyd i bobl a dderbyniwyd ac a ryddhawyd o'r carchar.

Bydd y Pwyllgor yn derbyn papur gan y Gweinidog yn amlinellu cynllun gweithredu'r Llywodraeth mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a bydd y Pwyllgor yn trafod y materion eto gyda'r DRC yng ngwanwyn 2007.

## Eitem 4: Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifiad o Fwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006
## HSS(2)-14-06(t3)

4.1 Craffodd yr Aelodau ar yr is-ddeddfwriaeth. Codwyd nifer o bwyntiau i'w hegluro ymlaen llaw ac ymatebodd y Gweinidog iddynt yn y cyfarfod.

**Camau Gweithredu**

Adroddiad pwyllgor i'w osod gerbron y Pwyllgor a'r Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd Y Pwyllgor Busnes

## Papurau i Nodi

Adolygiad o Wasanaethau Canser - argaeledd therap? cyffuriau a thriniaethau newydd
HSS(2)-14-06(t4)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2006
HSS(2)-13-06-min

Gwasanaeth y Pwyllgor
Hydref 2006